OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 567

## Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017

## RHAN 12

### Datblygiad ag Effeithiau Trawsffiniol Sylweddol

**Datblygiad yng Nghymru sy'n debygol o gael effeithiau sylweddol mewn Gwladwriaeth AEE arall**

**56.**—(1) Pan—

(a) y daw i sylw Gweinidogion Cymru bod datblygiad y bwriedir ei gynnal yng Nghymru yn destun cais AEA ac yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd mewn Gwladwriaeth AEE arall; neu

(b) bod Gwladwriaeth AEE arall sy'n debygol o gael ei heffeithio'n sylweddol gan ddatblygiad o'r fath yn gofyn iddynt,

rhaid i Weinidogion Cymru—

(i) anfon y manylion a grybwyllwyd ym mharagraff (2) ac, os yn berthnasol, yr wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (3) i'r Wladwriaeth AEE cyn gynted ag y bo modd a dim hwyrach na'r dyddiad cyhoeddi yn y London Gazette y cyfeirir ato yn is-baragraff (ii);

(ii) cyhoeddi'r wybodaeth ym mharagraff (2) mewn hysbysiad yn y London Gazette, ac os yw'n berthnasol, yr wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (3) a chyfeiriad lle mae gwybodaeth ychwanegol ar gael; a

(iii) rhoi amser rhesymol i'r Wladwriaeth AEE ddynodi a yw'n dymuno cymryd rhan yn y weithdrefn y mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar ei chyfer.

(2) Y manylion y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)(b)(i) yw—

(a) disgrifiad o'r datblygiad ynghyd ag unrhyw wybodaeth sydd ar gael ar ei effaith sylweddol bosibl ar yr amgylchedd mewn Gwladwriaeth AEE arall; a

(b) gwybodaeth ynghylch natur y penderfyniad y caniateir ei wneud.

(3) Pan fo Gwladwriaeth AEE yn dynodi, yn unol â pharagraff (1)(b)(iii), ei bod yn dymuno cymryd rhan yn y weithdrefn y mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar ei chyfer, rhaid i Weinidogion Cymru anfon y canlynol i'r Wladwriaeth AEE honno cyn gynted ag y bo modd—

(a) copi o'r cais dan sylw;

(b) manylion yr awdurdod sy'n gyfrifol am benderfynu ar y cais;

(c) copi o unrhyw ganiatâd cynllunio sy'n ymwneud â'r datblygiad;

(d) copi o unrhyw ddatganiad amgylcheddol mewn cysylltiad â'r datblygiad; a

(e) gwybodaeth berthnasol ynglŷn â'r weithdrefn o dan y Rheoliadau hyn,

ond dim ond i'r graddau nad yw gwybodaeth o'r fath wedi ei darparu i'r Wladwriaeth AEE yn gynharach yn unol â pharagraff (1)(b)(i).

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd sicrhau bod y Wladwriaeth AEE dan sylw yn cael cyfle, cyn y rhoddir caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad, i anfon ymlaen at Weinidogion Cymru o fewn cyfnod rhesymol, farn y cyhoedd a'r awdurdodau sy'n debygol o fod â phryderon yn sgîl y prosiect oherwydd eu cyfrifoldebau amgylcheddol penodol am yr wybodaeth a ddarperir.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru, yn unol ag Erthygl 7(4) o'r Gyfarwyddeb—

(a) cynnal ymgynghoriadau gyda'r Wladwriaeth AEE dan sylw ynghylch, ymysg pethau eraill, effeithiau sylweddol posibl y datblygiad ar amgylchedd y Wladwriaeth AEE honno a'r mesurau a ragwelir ar gyfer lleihau neu ddileu effeithiau o'r fath; a

(b) penderfynu ar y cyd â'r Wladwriaeth AEE arall ar gyfnod rhesymol o amser ar gyfer hyd y cyfnod ymgynghori.

(6) Pan ymgynghorir â Gwladwriaeth AEE yn unol â pharagraff (5) ar benderfyniad ynghylch y cais dan sylw, rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r Wladwriaeth AEE am y penderfyniad ac anfon ati gopi o'r wybodaeth y cyfeirir ati yn rheoliad 28.

**Prosiectau mewn Gwladwriaeth AEE arall sy'n debygol o gael effeithiau trawsffiniol sylweddol**

**57.**—(1) Pan fo Gweinidogion Cymru yn cael gwybodaeth gan Wladwriaeth AEE arall, yn unol ag Erthygl 7(1) neu (2) o'r Gyfarwyddeb, a gasglwyd oddi wrth ddatblygwr prosiect arfaethedig yn y Wladwriaeth AEE arall gan y Wladwriaeth AEE honno, sy'n debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd yng Nghymru, rhaid iddynt, yn unol ag Erthygl 7(4) o'r Gyfarwyddeb—

(a) cynnal ymgynghoriadau gyda'r Wladwriaeth AEE honno ynghylch effeithiau sylweddol posibl y prosiect arfaethedig ar yr amgylchedd yng Nghymru a'r mesurau a ragwelir ar gyfer lleihau neu ddileu effeithiau o'r fath; a

(b) cyn y rhoddir cydsyniad datblygu i'r prosiect, penderfynu ar gyfnod rhesymol ar y cyd â'r Wladwriaeth AEE honno pryd y caniateir i aelodau'r cyhoedd yng Nghymru gyflwyno sylwadau i'r awdurdod cymwys yn y Wladwriaeth AEE honno, yn unol ag Erthygl 7(3)(b) o'r Gyfarwyddeb.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd—

(a) trefnu i'r wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (1) fod ar gael, o fewn cyfnod rhesymol ac am gyfnod nad yw'n llai na 30 o ddiwrnodau, i'r awdurdodau yng Nghymru sy'n debygol o fod â phryderon ynghylch y prosiect oherwydd eu cyfrifoldebau amgylcheddol penodol, ac i'r cyhoedd dan sylw yng Nghymru hefyd;

(b) sicrhau bod yr awdurdodau hynny a'r cyhoedd dan sylw yn cael cyfle i anfon ymlaen eu barn ar yr wybodaeth a ddarparwyd at yr awdurdod cymwys yn y Wladwriaeth AEE berthnasol o fewn cyfnod rhesymol o amser, cyn y rhoddir cydsyniad datblygu i'r prosiect; ac

(c) sicrhau bod unrhyw wybodaeth a geir gan awdurdod cymwys y Wladwriaeth AEE berthnasol ar gael i'r cyhoedd dan sylw er mwyn cydymffurfio ag Erthygl 9(2) o'r Gyfarwyddeb.